

**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**  
**COFNODION CYFARFOD MEDI 2022**  
5 Medi 2022, 7.30 o bell yn Y Ganolfan, Llanfrothen

**1. Presennol**

Elin Jones, Glyn Griffiths, Bethan Gritten, Siân Cwper, June Jone

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

**2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol**

Dim

**3. Ymddiheuriadau**

Dim

**4. Cadarnhau Cofnodion Misol 20 Mehefin 2022**

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Elin Jones

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech**

Mae ADRA wedi cyflwyno eu cais cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri, ond parheir i ddisgwyl iddynt brosesu'r cais

**5.2 13 Garreg Frech**

Trefnwyd cyfarfod efo Mabon ap Gwynfor AS am 12:00 ddydd Gwener 7 Hydref yn 13 Garreg Frech er mwyn trafod y mater ymhellach.

**5.3 Y Ganolfan**

Cytunwyd fod angen cegin newydd yn Y Ganolfan, ac i bwrcasu cegin gan Howdens yn unol â'r amcan bris o £1662.87 dyddiedig 30 Mehefin 2022.

Cafwyd tri phris am osod y gegin yn Y Ganolfan. Penderfynwyd mynd am yr ail bris rhataf, oedd £65.00 yn ddrytach, gan fod mwy o sicrwydd yn ansawdd gwaith a phris y person hwnnw.

Cafwyd 3 pris am baentio'r Ganolfan ac fe benderfynwyd mynd am y pris rhataf, a hefyd gan fod y paentiwr yn medru dechrau'r gwaith paentio yn gynt.

#### **5.4 Goryrru Llanfrothen**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddant yn gwneud y gwaith o osod marciau ar y ffordd yn Llanfrothen, er mwyn arau traffig, erbyn diwedd mis Medi. Gobeithir hefyd fedru cynnal asesiad cyflymder traffig o fewn y chwe wythnos nesaf.

#### **5.5 Maes Chwarae Llanfrothen**

Penderfynwyd peidio dosbarthu'r arolwg am yr angen am faes chwarae yn Llanfrothen, hyd nes gweld os oedd y datblygiad yng Ngharreg Frech yn mynd yn ei flaen.

#### **5.6 Cyfethol Aelodau**

Mae'r cyngor cymuned yn parhau efo tair sedd wag. Gofynnwyd i aelodau holi unrhyw un oedd â diddordeb i gysylltu â'r Clerc.

### **6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mehefin 2022 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Gorffennaf 2022 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Cyflog Clerc Awst 2022 £239.72

TWE £59.80

**6.4** Nia Povey bagiau hwfer a blodau i'r fynwent £16.00

**6.5** Michael Kerr, agor bedd 26/06/22 £400.00

**6.6** Cymru 1 gwasanaeth gwefan Anfoneb 9080 £393.60

Cymru 1 tacluso'r wefan Anfoneb 9061 £57.60

**6.7** Scottish Power Trydan Y Ganolfan £16.09

**6.8** Cyngor Gwynedd ffi archwilio mewnol 2021/22 £276.00

- 6.9** HSBC costau cyfrif hyd at 5 Mehefin, 5 Gorffennaf a 5 Awst 2022 £24.00
- 6.10** Dunn & Ellis 26/07/22 £59.40
- 6.11** Michael Kerr agor bedd 28/07/22 £410.00
- 6.12** Michael Kerr agor bedd 28/07/22 £460.00
- 6.13** Michael Kerr agor bedd 04/08/22 £410.00
- 6.14** Michael Kerr agor dau fedd 31/08/22 £800.00
- 6.15** Derbyn tâl claddedigaeth Pritchard & Griffiths £1,230.00
- 6.16** Derbyn tâl claddedigaeth Pritchard & Griffiths £2,850.00
- 6.17** HMRC ad-daliad TAW 2021-22 £209.95
- 6.18** Derbyn ail-daliad praesept 2022/23 gan Gyngor Gwynedd £4,650.00
- 6.19** Balans yn y banc cyfrif 21041169 30 Awst 2022 £14,715.02  
Balans yn y banc cyfrif 4180197 30 Awst 2022 £21,137.2

## **7. Gohebiaeth**

Dim

## **8. Cynllunio**

Cais NP65/68/186C Anwylfan, Croesor, codi sied wedi ei gorchuddio â phren.

Dim gwrthwynebiad.

## **9. Materion Eraill**

### **9.1 Mynwent Tan Lan**

Ar hyn o bryd mae'r fynwent yn cael ei thorri 6 gwaith y flwyddyn, gyda 2 doriad i weddill y fynwent. Mae angen trafod yng nghyfarfod Tachwedd nifer y toriadau ar gyfer 2023, a hefyd angen nodi angen i glirio/chwythu i ffwrdd unrhyw wair sy'n cael ei dorri fel nad yw'n casglu ar y cerrig beddi

### **9.2 Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad ar flaenoriaethau ar gyfer llwybrau a hawliau tramwy dros y blynyddoedd nesaf.

### **9.3 Ymgynghoriad Treth Cyngor Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y dreth cyngor yng Nghymru. Cytunwyd y gallai aelodau ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolion.

### **9.4 Tîm Tacluso Ardal Ni**

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu timoedd tacluso fydd yn ymateb i geisiadau gan gymunedau lleol i wneud gwaith tacluso megis glanhau arwyddion, gwaredu graffiti, clirio tyfiant. Gellir cysylltu â nhw yn uniongyrchol drwy wefan Cyngor Gwynedd.

### **9.5 Taliadau Aelodau**

Mae'n rhaid i gynghorwyr cymuned gael cyfle i dderbyn taliad o £150 bob blwyddyn ariannol fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Gall unigolyn wrthod derbyn rhan neu'r cyfan o'r taliad. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig.

### **9.6 Cynllun claddu peilonau dan y Ddwryd – buddiant cymunedol**

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo National Grid er mwyn gweld os oes modd cael unrhyw arian buddiant cymunedol drwy'r cynllun claddu peilonau dan y Ddwryd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7 Tachwedd 2022**